***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 140 (Cy.12)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *28 Ionawr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mawrth 2003* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(1)(a), (2), 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**), ac adran 10(1) a (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**) sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**4**)) yn cael eu diwygio fel a ganlyn:—

(a) Yn rheoliad 3(2) ar ôl y diffiniad o "cwmni" mewnosodwch—

"ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;".

(b) Yn Rhan I o Atodlen 3—

(i) mewnosodwch ar ôl paragraff 1 (1)(b)—

"(ba) os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig gan y Cyngor ei fod yn athro neu athrawes gymwysedig, gan fod y Cyngor wedi'i fodloni ar 1 Medi 2003 neu wedyn ei fod yn berson a grybwyllir ym mharagraffau 2 i 6 neu 8 ac, os yw'n berson a grybwyllir ym mharagraff 8 fod y datganiad a gyflwynwyd gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey yn gywir; neu";

(**1**) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14 o Ddeddf Addysg 1994 a pharagraff 6 o Atodlen 3 ac Atodlen 4 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30).
(**2**) 1998 p.30.
(**3**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) O.S 1999/2817 (Cy.18) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2938(Cy.279).

(ii) ym mharagraff 1(1) ar ôl y geiriau "o dan baragraff (b)" mewnosodwch y geiriau "neu (ba)", ac ar ôl y geiriau "o'r dyddiad y bydd y Cynulliad" mewnosodwch y geiriau "neu'r Cyngor";

(iii) mewnosodwch ar ôl paragraff 1(2)—

"(2A) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), gall y Cyngor ddarparu i berson a grybwyllir ym mharagraffau 2 i 6 neu 8 fod yn athro neu athrawes gymwysedig o ddyddiad nad yw'n fwy na blwyddyn cyn yr hysbysiad i'r graddau bod hynny'n briodol gan roi sylw i holl amgylchiadau'r achos."; a

(iv) ym mharagraff 1(4) yn lle'r geiriau "ni fydd y Cynulliad yn darparu" rhowch y geiriau "ni fydd naill ai'r Cynulliad na'r Cyngor yn darparu".

**Diwygio Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000**

**3.** Mae Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000(**5**) yn cael eu diwygio trwy roi yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes gymwysedig" yn rheoliad 2 y diffiniad canlynol—

mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr un ystyr ag sydd i "*qualified teacher*" yn adran 218(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988;".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Ionawr 2003

(**5**) O.S. 2000/ 2560 (Cy. 169).
(**6**) 1998 p.38

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 er mwyn galluogi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i benderfynu a yw categorïau penodol o bersonau yn athrawon cymwysedig. Mae'r rhain yn cynnwys person sydd wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon; person sydd yn cael ei adnabod fel athro neu athrawes yng Ngogledd Iwerddon; person sydd wedi ei gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban; athro neu athrawes ysgol o Ardal Economaidd Ewrop; a pherson sydd wedi ei argymell ar gyfer statws athro neu athrawes gymwysedig gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i'r diffiniad o "athro neu athrawes gymwysedig" yn Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000.